

Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk



Cyf: LT/JS/AW
Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
01443 864817

1 Chwefror 2022

Annwyl Ymgynghorai

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rydyn ni'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am gyhoeddi Hysbysiad Statudol.

Mae'r cynnig ynglŷn â'r canlynol:

- **Uno Ysgol iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon i greu darpariaeth Ysgol Gynradd newydd ar safle presennol yr ysgol fabanod**

Bellach, mae gan unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r cynnig trefniadaeth ysgolion hwn gyfle i wneud hynny. Er mwyn i wrthwynebiadau gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid eu cyflwyno nhw'n ysgrifenedig neu drwy e-bost, a rhaid iddyn nhw ddod i law cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod o hyd, sy'n dod i ben ar 28 Chwefror 2022.

Dylai gwrthwynebiadau trwy e-bost gael eu hanfon i:

YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk

Dylai gwrthwynebiadau ysgrifenedig gael eu hanfon i: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Ar gyfer sylw Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach CF82 7PG

Yr argymhelliad yw troi at yr wybodaeth gefndir sydd wedi'i chynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Adroddiadau Ymgynghori cyn cyflwyno ymateb.

Mae'r manylion llawn a'r holl ddogfennau perthnasol ynglŷn â'r cynnig ar gael yn:

<https://www.caerffili.gov.uk/ysgolion-yr-21ain-ganrif>

Cofion

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

